

Cynllun Cyflawni Datgarboneiddio ar gyfer gweithgareddau gweithredol y Cyngor 2025 – 2030

Crynodeb Gweithredol

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Tachwedd 2025



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council



Frances O'Brien, Prif Weithredwr

“Mae'r cynllun cyflawni hwn yn hanfodol i'r cyngor nodi map llwybr i ddadgarboneiddio gweithgareddau gweithredol y cyngor gan weithio tuag at dargedau sero net yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Bydd llwyddiant y cynllun cyflawni hwn yn dibynnu ar bob rhan o'r cyngor yn cydweithio a dyma pam yr ymgynghorwyd â staff yn ystod y broses ddatblygu i fesur eu mewnbwn. Mae gan bob aelod o Dîm NPT rôl hanfodol i'w chwarae wrth helpu'r cyngor i weithio tuag at sero net, oherwydd gyda'n gilydd, rydym yn gwneud y gwahaniaeth.”

Cyfarwyddwr Strategol - Amgylchedd ac Adfywio

“Gyda sefydlu ein tîm DECC (Dadgarboneiddio, Ynni a Newid Hinsawdd) newydd, bydd hyn yn helpu i yrru'r cynllun cyflawni dadgarboneiddio ymlaen, gan adeiladu ar y gwaith gwych sydd eisoes wedi'i gyflawni fel rhan o strategaeth DARE, gyda'r cynllun cyflawni newydd hwn yn gam nesaf yn y daith esblygiadol honno.”





Noelwyn Daniel

Cyfarwyddwr Strategol - Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol

“Bydd llwyddiant y cynllun cyflawni hwn yn dibynnu ar bawb yn chwarae eu rhan ar draws y cyngor cyfan wrth gefnogi'r camau gweithredu a'r mentrau a amlinellir yn y cynllun gweithredu.”

Andrew Jarrett

Cyfarwyddwr Strategol - Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Diogelwch Cymunedol

“This delivery plan is fundamental for the council in identifying a route map to decarbonise council operational activities working towards net zero targets in line with Welsh Government guidelines.”



Cyflwyniad a Cefndir

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi bod yn gweithio i leihau ei effaith ar yr amgylchedd ers blynnyddoedd lawer, wedi'i ysgogi nid yn unig gan ddeddfwriaeth Cymru ond yr awydd i ddarparu'r gwasanaethau gorau ac ansawdd bywyd uchel i drigolion yn y sir.

Mae gan y Cyngor hanes profedig o ddatblygu'r agenda datgarboneiddio, fel y dangosir gan lunio'r Strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy (DARE) a thrwy gyhoeddi Argyfwng Hinsawdd yn 2022.

Bydd y Cynllun Dadgarboneiddio hwn a'r cynllun gweithredu ategol yn cefnogi cyflawniad gweithredol Strategaeth Dadgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy (DARE) y Cyngor a'r Cynllun Ynni Ardal Leol (LAEP). Pennir y llinell sylfaen o allyriadau'r Cyngor o 30,371 tCO₂e o'r flwyddyn 2023-24. Os cyflawnir y camau gweithredu yn y cynllun cyflawni, bydd hyn yn anelu at ddod ag allyriadau i 9,152 tCO₂e sy'n dal i adael bwch i'r targed sero net. Fodd bynnag, byddai hyn yn cael ei gymharu â 17,526 tCO₂e pe bai'r Cyngor yn gweithredu busnes fel arfer heb weithredu'r cynllun cyflawni.



Map o Fwrdeistref Sirol CnPT



Canopi solar a gorsaf wefru yn y Ceiau

Amcanion y Cynllun Cyflawni

1 LLEIHAU'R DEFNYDD O YNNI AR DRAWS ADEILADAU



Cynllunio rhesymoli a gwella perfformiad ynni adeiladau i leihau'r ynni a ddefnyddir trwy arferion ymddygiad a pherfformiad ynni adeiladau.

2 DARPARU GWRES A PHŴER WEDI'U DADGARBONEIDDIO



Newid o danwydd ffosil i wresogi carbon isel mewn adeiladau, defnyddio technolegau ynni adnewyddadwy a chynyddu caffael trydan adnewyddadwy.

3 CYNYDDU'R DEFNYDD O YNNI ADNEWYDDADWY



Goresgyn rhwystrau i gynyddu ac annog gosod technolegau ynni adnewyddadwy ar adeiladau a thir y Cyngor, gan gefnogi amcanion eraill megis seilwaith gwefru cerbydau trydan a rhannu adnoddau.

Amcanion y Cynllun Cyflawni

4 CYNYDDU'R DEFNYDD O DRAFNIDIAETH CARBON ISEL



Trydaneiddio fflyd y cyngor, ehangu seilwaith gwefru cerbydau trydan, a hyrwyddo opsiynau teithio egniïol a chynaliadwy.

5 CAFFAEL MWY CYNALIADWY



Ymgorffori meini prawf lleihau carbon mewn prosesau caffael a lleihau effaith y gadwyn gyflenwi.

6 GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH



Mae gweithio gyda phartneriaid, trigolion a staff yn creu buddsoddiad a rennir a manteision i'r fwrdeistref sirol, gan ysgogi sero net a datgarboneiddio sy'n gwella'r amgylchedd ac yn cefnogi ffyniant economaidd yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Ôl-troed Carbon

Mae olion traed carbon blynyddol yn hanfodol i ddarparu meincnod ar gyfer mesur ac olrhain cynnydd sefydliad o ran lleihau ei allyriadau carbon dros amser. Maent yn helpu i asesu effeithiolrwydd mentrau cynaliadwyedd ac olrhain cynnydd yn erbyn targed lleihau carbon presennol CnPT.


Mae ôl troed wedi'i rannu'n dair cwmpas i ddisgrifio ffynhonnell a pherchnogaeth yr allyriadau carbon.

Cwmpas 1	Allyriadau uniongyrchol o hylosgi nwy a thanwyddau eraill
Cwmpas 2	Allyriadau sy'n deillio o gynhyrchu trydan a brynwyd
Cwmpas 3	Allyriadau a wneir gan drydydd partïon mewn cysylltiad â gweithgareddau gweithredol


Mae allyriadau wedi gostwng ar gyfer Cwmpas 3 flwyddyn ar ôl blwyddyn yn bennaf oherwydd gostyngiadau mewn allyriadau'r gadwyn gyflenwi.

Yr allyriadau anuniongyrchol hyn sy'n gysylltiedig â Nwyddau a Gwasanaethau a Brynwyd gan y sefydliad yw'r cyfraniadau mwyaf arwyddocaol at yr ôl troed.

NPT Council carbon emissions for FY 2022-23, by scope



NPT Council carbon emissions for FY2023-24, by scope




Ôl-troed Carbon

Y cyfrannwr mwyaf o allyriadau i'r Cyngor yw allyriadau cwmpas 3 o nwyddau a gwasanaethau a brynir, sy'n ffurfio 36% o'r ôl-troed cyffredinol. Yr ail uchaf yw o adeiladau sef 34%.

Mae allyriadau o gerbydau fflyd y Cyngor yn 12%, sy'n cynnwys lorïau ailgylchu, ysgubwyr strydoedd, chwythwyr dail a cheir pwll a ddefnyddir gan staff.

Mae allyriadau cymudo o staff yn teithio i'r gwaith ac allyriadau adref o weithio Hybrid yn cyfrif am 8% o'r ôl troed. Mae goleuadau stryd, gwastraff a theithio busnes yn cyfrif am y 10% sy'n weddill o'r ôl troed carbon cyffredinol.

Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar allyriadau ar draws yr holl feysydd hyn.




Llwybrau Allyriadau

Mae'r ôl troed carbon yn llinell sylfaen sy'n dweud wrthym ble rydym yn sefyll ar hyn o bryd; mae'r targed sero net yn dweud wrthym beth sydd ei angen i gyflawni gostyngiad o 90% erbyn 2023, gan ddefnyddio llinell sylfaen 2023-24 fel y dangosir ar y llinell goch doredig ar y llwybr allyriadau isod.

Gan ddefnyddio'r ôl troed llinell sylfaen, camau gweithredu a gynlluniwyd a gostyngiadau amcangyfrifedig mewn allyriadau grid trydan wrth i'r DU symud i ffwrdd o danwydd ffosil tuag at bŵer carbon isel (megis ynni adnewyddadwy), gallwn fodelu defnydd ynni'r Cyngor yn y dyfodol flwyddyn ar ôl blwyddyn. Fodd bynnag, bydd hyn yn newid dros amser wrth i bolisi, cynnydd cenedlaethol a rhagdybiaethau esblygu.

Hyd yn oed os caiff yr holl gamau gweithredu arfaethedig yn y cynllun presennol eu cyflawni, rhagwelir y bydd bwlch o hyd i gyrraedd sero net. Yn ystod y blynyddoedd nesaf, mae'n bwysig ystyried camau gweithredu ychwanegol i leihau'r rhagolygon allyriadau ymhellach gyda champau gweithredu mwy arloesol ac uchelgeisiol wrth i dechnoleg wella a chostau leihau.



Nwyddau a Gwasanaethau Brynwyd

Nwyddau a gwasanaethau a brynir yw ffynhonnell allyriadau uchaf y Cyngor ac maent yn cynrychioli ein heffaith Cwmpas 3 fwyaf, gan olygu bod angen dull gwahanol o'i gymharu â Chwmpasau 1 a 2 lle mae gan y Cyngor reolaeth fwy uniongyrchol. Gall y Cyngor gefnogi gostyngiadau mewn allyriadau Cwmpas 3 trwy greu ei arferion caffael mwy cynaliadwy ei hun trwy adolygu gweithdrefnau, meini prawf a phecynnau cymorth i asesu effeithiau tymor hwy unrhyw bryniannau a chontractau.

Nid yw cyfrifoldeb am allyriadau o'r gadwyn gyflenwi o fewn rheolaeth uniongyrchol y Cyngor, ond serch hynny, lle bynnag y bo modd byddwn yn gweithio gyda busnesau lleol i alluogi a chefnogi mentrau i fusnesau lleol fodloni dulliau carbon isel ar gyfer nwyddau a gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu dull cylch bywyd ac economi gylchol i leihau gwastraff a lleihau carbon.



Allyriadau Adeiladu



Y Ceiau (top) a Chanolfan Dechnoleg y Bae (gwaelod)

Allyriadau adeiladau'r Cyngor (gan gynnwys nwy, trydan, nwyon ffosil, gwastraff a dŵr) yw'r ail gyfrannwr mwyaf at yr ôl troed carbon cyffredinol, gan gyfrif am 32% o gyfanswm yr allyriadau.

Mae'r newid i bympiau gwres yn gam allweddol wrth ddisodli gwresogi tanwydd ffosil (olew a nwy) â thrydan. Mae tanwyddau ffosil bob amser yn cynhyrchu carbon pan gaiff eu defnyddio, tra bod trydan yn dod yn lanach wrth i grid y DU ddadgarboneiddio. Mae hyn yn golygu y bydd adeiladau wedi'u trydaneiddio yn gweld allyriadau'n lleihau dros amser, tra bydd y rhai sy'n defnyddio tanwyddau ffosil yn parhau i allyrru.

Bydd lleihau allyriadau a newid i wres carbon isel yn gofyn am ddull adeilad cyfan, gan wella inswleiddio, gwresogi, goleuadau a rheolyddion gyda'i gilydd i wneud y mwyaf o effeithlonrwydd.

Bydd mentrau fel lleihau nifer yr adeiladau gweithredol trwy resymoli, ochr yn ochr â defnydd cynyddol o oleuadau LED a solar ar y safle (PV), yn helpu i ostwng y defnydd ynni cyffredinol a dibyniaeth ar drydan grid. Wrth i wres carbon isel a gwefru cerbydau trydan ehangu, bydd y galw am drydan yn cynyddu, gan wneud effeithlonrwydd ynni hyd yn oed yn bwysicach.

Bydd monitro a thargedu parhaus o ddefnydd ynni ar draws yr ystâd yn hanfodol i yrru gwelliant parhaus a chefnogi ystâd fwy cynaliadwy, a reolir gan garbon.

Allyriadau Fflyd

Allyriadau o fflyd ac offer y Cyngor yw'r trydydd cyfrannwr uchaf o allyriadau carbon i'r Cyngor, sef 12% o'r ôl troed.

Yn ystod y blynyddoedd nesaf, bydd angen i'r Cyngor ystyried a chynllunio camau gweithredu ychwanegol i'w cymryd i leihau ymhellach yr allyriadau a ragwelir ar gyfer 2030. Yn naturiol, bydd y rhan fwyaf o'r effaith yn cael ei chynhyrchu o gamau gweithredu a gymerir cyn gynted â phosibl, er ei bod yn hanfodol bod camau gweithredu ychwanegol yn cael eu cynllunio i barhau â'r gweithgaredd datgarboneiddio.

Bydd hyn yn gofyn am arweinyddiaeth gref gan y sector cyhoeddus mewn trafniadaeth carbon isel, trwy annog cyflwyno cerbydau trydan a datblygu seilwaith.

Disgwylir i allyriadau o ddefnydd tanwydd ffosil y Fflyd leihau'n sylweddol erbyn 2030 wrth i'r rhan fwyaf o gerbydau fflyd diesel a phetrol gael eu disodli gan gerbydau trydan.

Bydd y cerbydau Peiriannau Hylosgi Mewnol (ICE) sy'n weddill yn cael eu disodli erbyn 2035. Bydd allyriadau teithio busnes hefyd yn gweld rhywfaint o ostyngiad wrth i ddefnydd staff o'r ceir pwll trydan gynyddu dros amser a chynhelir mwy o gyfarfodydd yn rhithwir yn hytrach nag yn bersonol.



Lori Ailgylchu Trydan

Gweithio Gartref a Theithio i'r Gwaith

Mae allyriadau o weithio gartref a theithio i'r gwaith yn un o'r cyfranwyr lleiaf at ôl troed carbon cyffredinol y Cyngor sef 8%, ac ni ragwelir y byddant yn lleihau'n sylweddol erbyn 2030.

Efallai y bydd gweithio gartref yn cynyddu o ystyried newidiadau mewn patrymau gweithio a newidiadau i bortffolio'r adeiladau, ond dylid gwrthweithio hyn trwy leihau'r teithio i'r swyddfa.

Fodd bynnag, mae'r angen i staff deithio i'r swyddfa yn eu cerbydau eu hunain (y mwyafrif ohonynt yn gerbydau ICE), yn gadael bwlch mawr i sero net ar gyfer y categori hwn. Cynhelir arolygon staff blynyddol i ddarparu adolygiad manwl o batrymau teithio a theithio staff er mwyn rhoi dealltwriaeth wybodus o'r effaith ar ein hól troed carbon.

Disgwylir i opsiynau i negyddu effaith carbon teithio a gweithio gartref gynnwys gweithio ystwyth, opsiynau teithio gweithredol carbon isel fel cynlluniau beicio i'r gwaith, rhannu ceir a gwella'r seilwaith EV.

Llywodraethu



Mae angen ymrwymiad unedig, ar draws y sefydliad i gyflawni sero net. Mae'n hanfodol bod pob aelod o staff, ym mhob adran, yn cofleidio'r cyfrifoldeb hwn.

Mae cefnogaeth Aelodau'r Cabinet ac uwch swyddogion yn hanfodol i yrru'r camau gweithredu drwyddynt a dwyn y Cyngor i gyfrif a dylai'r Prif Weithredwr fod â'r cyfrifoldeb pennaf am y cynllun cyflawni.

Bydd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio a Chyfarwyddwr Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol yn cymryd cyfrifoldeb arweiniol wrth ddatblygu a gweithredu'r rhaglenni a'r prosiectau datgarboneiddio.



Mae cyflawni nodau sero net y Cyngor yn gofyn am gydweithio ar draws setiau sgiliau staff amrywiol gyda ffocws ar reoli ynni.

Mae rheoli ynni yn ffurfio craidd lleihau allyriadau carbon, ond fel y dangosir yn yr ôl troed carbon, mae allyriadau o drafnidiaeth ac yn enwedig y gadwyn gyflenwi hefyd yn feysydd allweddol i'r Cyngor.

I'r gwrthwyneb, mae gan reoli tir botensial mawr fel ffynhonnell tynnu carbon a chynhyrchu ynni adnewyddadwy.



Byddai sefydlu strwythur llywodraethu newydd ar gyfer gweithredu ar yr hinsawdd yn cefnogi cydweithio trawsadrannol drwy grwpiau llywio thematig, yn canolbwyntio ar feysydd fel ynni, trafnidiaeth, defnydd tir a chaffael.


Ochr yn ochr â grwpiau ffurfiol, gellid cefnogi ymgysylltiad staff gan hyrwyddwyr hinsawdd, gweithwyr sy'n angerddol am ddatgarboneiddio drwy eu rolau neu eu gweithredoedd personol.

Bydd Adroddiad Carbon blynyddol a lunnir ddechrau mis Medi yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, yn cael ei ddefnyddio i olrhain ein perfformiad yn erbyn uchelgais sero net 2030.

Cyllid a Gweithredu

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi bod yn gweithio i leihau ei effaith ar yr amgylchedd ers blynyddoedd lawer, wedi'i ysgogi nid yn unig gan ddeddfwriaeth Cymru ond yr awydd i ddarparu'r gwasanaethau gorau ac ansawdd bywyd uchel i drigolion yn y sir. Mae gan y Cyngor hanes profedig o ddatblygu'r agenda datgarboneiddio, fel y dangosir gan lunio'r Strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy (DARE) a thrwy gyhoeddi Argyfwng Hinsawdd yn 2022.

Bydd cyflawni sero net yn dod â heriau ariannol a thechnolegol sylweddol ond gellir lliniaru'r rhain trwy gyflwyno mesurau ynni dim difaru a thrwy gydweithio â rhanddeiliaid. Bydd hyn yn sicrhau'r canlyniadau mwyaf posibl o fuddsoddiad cyfalaf wedi'i gynllunio, ynghyd â denu buddsoddiad allanol (benthyciadau a grantiau) i'r fwrdeistref wrth gydweithio â phartneriaid a busnesau eraill trwy ddull hyblyg, wedi'i gynllunio a all gyflawni prosiectau ar fyr rybudd ac o fewn amserlenni heriol.



Map ffordd i sero net erbyn 2030

Camau Nesaf

Bydd y cynllun cyflawni yn edrych i nodi prosiectau addas ar draws meysydd allyriadau allweddol—Fflyd, Adeiladau, Cadwyn Gyflenwi, Ffyrdd o Weithio, Defnydd Tir, ac Ynni Adnewyddadwy—gyda nifer o gamau galluogi cost isel, fel adolygiadau adeiladau a threialon cerbydau, yn ofynnol yn gyntaf i gefnogi'r cyflawni. Er bod elw ariannol yn bwysig, dylai effaith carbon a chyfleoedd ariannu grantiau hefyd arwain blaenoriaethu prosiectau. Bydd cynnydd y cynllun cyflawni yn cael ei adolygu'n flynyddol i olrhain cynnydd a sicrhau perthnasedd parhaus.

